



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD 25 Ionawar 2018
GAN Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio

- Deddf Awdurdod Llundain Fwyaf 1999
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2006
- Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Lloegr) 2003
- Rheoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
- Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Prosiectau Seilwaith Penodedig) (Ymgymrwyr yn Lloegr) 2013
- Rheoliad 2195/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar yr Eirfa Gaffael Gyffredin
- Penderfyniad gan y Comisiwn 2006/211/EC
- Penderfyniad gan y Comisiwn 2007/141/EC
- Penderfyniad gan y Comisiwn 2010/192/EU
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2015/1986
- Adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r OS yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud hi'n bosibl i Weinidog Swyddfa'r Cabinet arfer swyddogaethau. Mae angen caniatâd ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru ar gyfer rhai ohonynt, a hynny mewn perthynas ag Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Mae'r OS hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud hi'n bosibl i un ai Swyddfa'r Cabinet neu Weinidog Swyddfa'r Cabinet arfer swyddogaethau, a Gweinidogion Cymru ar yr un pryd mewn perthynas ag Awdurdodau Cymreig Datganoledig.

Byddai'r swyddogaethau hyn (Gweinidog Swyddfa'r Cabinet/Swyddfa'r Cabinet) yn gyfystyr â swyddogaethau un ai Weinidog y Goron neu awdurdod cyhoeddus (Swyddfa'r Cabinet) at ddibenion Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a bydd hyn o'r herwydd yn ystyriaeth berthnasol o fewn cyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth mewn perthynas â chaffael cyhoeddus (yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth nad yw'n gysylltiedig â chaffael) sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio adran 155(2) a (3) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn diffinio term drwy gyfeirio at Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, yn hytrach na thrwy gyfeirio at y Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus. Mae'r diwygiad hwn yn un technegol ei natur ac mae'n ofynnol er mwyn i'r ddarpariaeth hon weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <http://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2019/9780111176788/contents>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn. Mae'r cyfarwyddebau hynny wedi'u trosi ar wahân, ac i raddau yn wahanol, i gyfraith yr Alban, felly bydd Gweinidogion yr Alban yn cyflwyno offeryn diwygio ar wahân mewn perthynas â rheoliadau cyfatebol yr Alban.

Mae Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hefyd wedi'i osod yn y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r diwygiadau i Ddeddf Cydraddoldeb 2010